**Atodiad**

**Pwyllgor Safonau 04/11/24 - Honiadau yn erbyn aelodau**

---

**Cwyn 202400306**

Ymddygiad aelod o gyngor tref mewn cyfarfod o’r Cyngor ac wrth gynnal ymchwiliad yr honnwyd oedd yn ddiangen i ymddygiad swyddogion arferai reoli busnes ar ran y cyngor.

**Penderfyniad**

Peidio ag ymchwilio. Dim tystiolaeth ddigonol wedi ei gyflwyno i gefnogi’r honiadau.

---

**Cwyn 202401290**

Bod aelod o gyngor tref wedi methu datgan buddiant mewn cyfarfod o’r cyngor llawn

**Penderfyniad**
Peidio ag ymchwilio gan fod y materion a godwyd yn y gŵyn yma eisoes yn destun ymchwiliad ar wahân, ac ni fyddai felly yn y budd cyhoeddus i ymchwilio iddynt. Bydd y dystiolaeth yn cael ei ystyried fel rhan o’r ymchwiliad hwnnw.

---

**Cwyn 202401291**

Bod aelod o gyngor tref wedi methu datgan buddiant ac wedi pleidleisio ar fater lle’r honnwyd bod ganddi fuddiant personol oedd yn rhagfarnu.

**Penderfyniad**

Peidio ag ymchwilio gan fod y materion a godwyd yn y gŵyn yma eisoes yn destun ymchwiliad ar wahân, ac ni fyddai felly yn y budd cyhoeddus i ymchwilio iddynt. Bydd y dystiolaeth yn cael ei ystyried fel rhan o’r ymchwiliad hwnnw.

---

**Cwyn 202401342**

Cwyn bod aelod o gyngor tref wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol yn ystod cyfarfod o’r cyngor drwy gyfeirio at 2 aelod o’r cyngor oedd dan ymchwiliad gan yr Ombwdsmon

**Penderfyniad**

Er y gwerthfawrogwyd y gallai'r cyhoeddiad fod wedi achosi pryder a/neu embaras i'r aelodau oedd yn destun ymchwiliad, ym marn yr Ombwdsmon, ar y cyfan, nid oedd digon o dystiolaeth i awgrymu bod yr Aelod yn rhannu manylion preifat neu gyfrinachol am y cwynion. Ystyriwyd nad oedd yr ymddygiad a ddisgrifiwyd yn dechnegol yn groes i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf Llywodraeth Leol ac felly nid oedd yn torri'r Cod.

---

**Cwyn 202403031**

Bod aelod o gyngor tref wedi methu gadael yr ystafell pan yn ystod trafodaeth ar fater yr oedd wedi datgan buddiant yn ei gylch.

**Penderfyniad**

Er yr ymddangosai fod yr ymddygiad yn torri'r Cod penderfynwyd peidio ymchwilio gan fod cwyn yn erbyn yr aelod mewn perthynas â'r buddiant eisoes yn destun ymchwiliad ar wahân, ac ni fyddai felly yn y budd cyhoeddus i ymchwilio iddynt. Bydd y dystiolaeth yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymchwiliad hwnnw.

---

**Cwyn 202403620**

Bod aelod o gyngor tref wedi methu datgan buddiant ac wedi cymryd rhan yn y drafodaeth a phleidleisio ar y mater.

**Penderfyniad**

Peidio ag ymchwilio gan fod y materion a godwyd yn y gŵyn yma eisoes yn destun ymchwiliad ar wahân, ac ni fyddai felly yn y budd cyhoeddus i ymchwilio iddynt. Bydd y dystiolaeth yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymchwiliad hwnnw.

---

**Cwyn 202403617**

Bod aelod o gyngor cymuned wedi gwthio drws ffrynt yr achwynydd ar agor wrth iddo geisio ei gau ac wedi bygwth trais corfforol.

**Penderfyniad**

Peidio ymchwilio. Er gofyn i'r achwynydd nid ddarparodd dystiolaeth ddigonol am y digwyddiad nag i ddangos oes oedd yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd neu fel unigolyn preifat ar y pryd

---

**Cwyn 202404564**

Honnwyd gan aelod o'r cyhoedd fod aelod o gyngor tref wedi torri'r Cod Ymddygiad trwy bostio post amhriodol ar Facebook, ar dudalen grŵp cymunedol, y dywedodd yr achwynydd ei fod yn cael ei reoli gan yr aelod.

**Penderfyniad**

Ni ddarparwyd tystiolaeth ategol i gadarnhau mai'r Aelod sy'n gyfrifol am dudalen y grŵp, na'r post y cwynwyd yn ei gylch. Er y gellid fod wedi gofyn am dystiolaeth bellach ystyriwyd y mater yng nghyd-destun Erthygl 10 Confensiwn Hawliau Dynol sy'n gwarchod rhyddid mynegiant. Nid oedd yr Ombwdsmon yn cymeradwyo postio delweddau cartŵn o'r math hwn, oedd ymddangos yn gyfan gwbl allan o le ac yn amhriodol ar dudalen grŵp cymunedol ac a allai achosi tramgwydd i aelodau'r cyhoedd. Fodd bynnag, ni fyddai'n cael ei ystyried mor ddifrifol, sarhaus neu anfoesgar i fod yn gyfystyr â thorri'r Cod nac i warantu gosod cosb

gosod, gan na fyddai hyn yn cael ei ystyried yn ymyrraeth gymesur â rhyddid mynegiant yr aelod o dan Erthygl 10.